# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 6/11/18

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Alan Jones Evans, Elin Walker Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen, Peter Read ac Angela Russell.

**Swyddogion yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
Sharon Eastlake (Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
Dafydd Paul (Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, R.Medwyn Hughes, Linda Ann Jones, Rheinallt Puw a Catrin Wager.

## 2 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 4 (Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd) ac Eitem 5 (Adroddiad Blynyddol ar Ymdrin â Chwynion a Cheisiadau Gwybodaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2017/18) oherwydd ei bod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bod pennaeth ei gwasanaeth yn gweithio i Derwen.

Nid oedd o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. AROLYGIAD O WASANAETHAU PLANT CYNGOR GWYNEDD

Croesawyd Sharon Eastlake, Prif Arolygydd y Tîm Arolygu i'r cyfarfod i gyflwyno'r Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi mai cyflwyno adroddiad yr arolygiad i'r pwyllgor hwn oedd cam olaf y broses o arolygu gwasanaethau plant y Cyngor. Pwysleisiodd ei fod yn ymfalchïo'n fawr yn y negeseuon cadarnhaol o'r adroddiad a diolchodd i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor am eu mewnbwn i'r arolwg.

Rhoddwyd trosolwg o ganfyddiadau'r arolwg a'r meysydd i'w datblygu gan y Prif Arolygydd ac ymhelaethodd y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar y gwaith oedd eisoes ar droed i ymateb i argymhellion yr adroddiad, gan nodi:-

- Bod yr Adran wedi cymryd sylw manwl o'r materion yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at feysydd i'w datblygu, ac yn hytrach na datblygu rhaglen wella, bod gan yr Adran Raglen Uchelgais, gan mai cryfhau materion sydd eisoes angen adeiladu arnynt sydd angen ei wneud.
- Yn hytrach nag aros nes cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn Awst, y cychwynnwyd ar unwaith ar y gwaith o edrych yn fanwl ar y meysydd i'w datblygu yn sgil derbyn adborth llafar gan yr arolygwyr ar ddiwrnod olaf yr arolygiad ym mis Mai.
- Bod Tîm Rheoli'r Adran yn trafod y trefniadau sicrhau ansawdd a'r trefniadau monitro cynnydd ymhob cyfarfod a bod trafodaethau'n digwydd yn y cyfarfodydd herio perfformiad hefyd.
- Y byddai'r Arolygiaeth yn cadw llygaid agos hefyd a bod cyfrifoldeb ar yr Adran i adrodd ar gynnydd yn y cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda'r Arolygiaeth.
- Bod datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ers yr adolygiad yn cynnwys:-
  - Gwneud gwaith gyda'n partneriaid i dynnu sylw at y gwasanaethau sydd ar gael.
  - Ychwanegu at y strwythur o fewn y tîm fel bod un drws ffrynt ar gyfer y gwasanaeth statudol, ond hefyd ar gyfer y gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Hefyd, roedd y gwasanaeth gwybodaeth teuluol yn eistedd o fewn y gwasanaeth hwnnw erbyn hyn.
  - Datblygu gwybodaeth ar gyfer y we fel y gellir hysbysebu beth sydd ar gael i deuluoedd ac unigolion fydd angen cymorth.
  - Ail-frandio'r gwasanaeth fel 'Hwb Teulu Gwynedd', a dyma'r porth cyfeirio i mewn i'r gwasanaeth bellach.
- Bod y strategaeth cefnogi teuluoedd yn flaenoriaeth o dan Gynllun Strategol y Cyngor. Adroddwyd i'r Tim Arweinyddiaeth a'r Cabinet o ran y cyfeiriad a chafwyd adnodd ychwanegol ar lefel uwch reolwr i ddatblygu ac i arwain y strategaeth cefnogi teuluoedd fel mater o flaenoriaeth i'r Adran ac ar draws y gorfforaeth.
- O ran adolygu cynlluniau gofal ar gyfer plant mewn gofal, bod angen edrych ar sut i wella'r canlyniad i'r plentyn a bod y Tîm Swyddogion Adolygu Annibynnol, o dan arweiniad yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd, yn datblygu eu rhaglen waith eu hunain fydd yn plethu i mewn i'r Rhaglen Uchelgais hon.
- Bod diffyg a phrinder lleoliadau maeth addas yn her genedlaethol, ac nid yn unig ar gyfer y plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Gwelwyd pwysau hynny'n gynyddol ar y Tim Maethu a gwelwyd cynnydd yn niferoedd y plant mewn gofal a'r plant sy'n cael eu lleoli gyda'u teuluoedd estynedig. 'Roedd gwaith yn digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy'r Fframwaith Faethu Genedlaethol ac eglurodd y Pennaeth ei bod yn eistedd ar y grŵp llywio ar gyfer y fframwaith hwnnw fel y Pennaeth Plant Arweiniol ar gyfer y Gogledd. Hefyd, 'roedd rhaglen waith ranbarthol yn arwain ar recriwtio a marchnata ar gyfer maethu yng Ngogledd Cymru. Yn wyneb y pwysau cynyddol i'r Cyngor fod yn asesu teuluoedd i fod yn ofalwyr maeth, roedd rhyddhau adnoddau ar gyfer recriwtio a marchnata yn anodd, gan nad oes gennym y swyddogion hynny ein hunain o fewn ein hadnoddau yng Ngwynedd. Felly roedd y pwysau o'r llysoedd i gynnal yr asesiadau a mynd â theuluoedd drwy'r Panel Maethu yn pwyso'n drwm ar y Tîm Maethu ac roedd yn debyg bod hynny wedi bod ar draul ychydig o'r gwaith recriwtio yr arferid ei wneud. Er hynny, roedd 9 o deuluoedd oedd yn awyddus i faethu yn gyffredinol i'r Cyngor wedi dod drwy'r Panel Maethu yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran gan ei fod yn diwallu anghenion ein plant o fewn y sir.

Yna ymatebodd yr Aelod Cabinet, y Prif Arolygydd a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd sut roedd canlyniadau arolwg Gwynedd yn cymharu gyda siroedd eraill. Mewn ymateb, nodwyd bod Gwynedd yn un o 6 awdurdod lleol ar draws y Gogledd oedd wedi cael archwiliad yn yr un maes a bod y 6 adroddiad wedi'u cyhoeddi ar y We fel y gellid eu cymharu.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â lefelau staffio i'r dyfodol, nodwyd bod y Cyngor hwn yn ffodus iawn o safbwynt digonolrwydd staff a gweithwyr cymdeithasol. Nid oedd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithwyr trwy asiantaeth ac roedd y staff yn byw'n lleol, gyda chanran uchel ohonynt yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu cynnig gwasanaeth i deuluoedd yn eu dewis iaith. Roedd y gweithlu'n gymwysedig, yn brofiadol ac yn ymrwymedig iawn ac roedd y gwasanaeth yn edrych ar ystod eang o gymwysterau a sgiliau gwahanol o fewn y gweithlu, gyda phobl nad ydynt wedi cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol yn gwneud gwaith ardderchog gyda theuluoedd. Roedd y gwasanaeth yn llwyddo i ddenu pobl i swyddi yn rhwydd iawn, gyda hynny fel arfer yn golygu dyrchafiad mewnol neu weithwyr yn symud o un tîm i'r llall i ehangu eu profiad ac ychydig iawn o staff oedd yn gadael y Cyngor. Roedd y Gwasanaeth wedi rhoi llawer o fuddsoddiad dros nifer o flynyddoedd i fentora a chefnogi staff ac roedd y Tim Rheoli ar gael i'r staff ddod i ofyn am gyngor neu arweiniad. Mawr obeithid na fyddai'n rhaid edrych am arbedion o fewn y gweithlu gan y byddai hynny'n cynyddu'r risgiau yn sylweddol i'r Cyngor. Hefyd, rhagwelid y byddai digonolrwydd staff yn mynd yn anoddach i'r dyfodol wrth i nifer y cyfeiriadau gynyddu.
- Tra'n croesawu'r ffaith bod 9 teulu maeth newydd wedi'u recriwtio, holwyd faint o deuluoedd maeth a gollwyd dros yr un cyfnod. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhai teuluoedd yn ymddeol ac eraill yn penderfynu nad ydynt yn dymuno parhau i faethu, ond yn gyffredinol, bod niferoedd y lleoliadau maeth yn cadw'n wastad. Gellid darparu'r union ffigurau i'r aelod, pe dymunai hynny.
- Mewn ymateb i ymholiad, ymhelaethodd y Prif Arolygydd ar rôl a phroses yr Arolygiaeth wrth ymweld â'r meysydd datblygu. Nododd hefyd y byddai cyfeiriad at y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Cyngor yn llythyr blynyddol yr Arolygiaeth fyddai'n cael ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd ei bod yn gynamserol i ddweud beth fydd effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 o safbwynt arbed plant rhag dod i ofal, ac o bosib' na welid canlyniad y gwaith hwn am nifer o flynyddoedd.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd ei bod yn anodd iawn barnu a yw'r gwaith ataliol wedi arbed plentyn rhag dod i ofal, oherwydd efallai na fyddai'r plentyn hwnnw erioed wedi dod i ofal beth bynnag. Ni chredid bod tystiolaeth ar gael yng Ngwynedd, nac yn genedlaethol chwaith. Roedd grŵp o fewn y Llywodraeth yn edrych ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol ac yn ceisio gwneud y cyswllt, ond ni chafwyd y maen i'r wal hyd yma yn anffodus. Pe gellid creu'r cyswllt hwn, byddai dadl dros symud adnoddau i'r ochr ataliol er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n dod i ofal.
- Holwyd faint o blant sy'n dal gartref yn aros am leoliad. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwasanaeth yn craffu'r achosion yma'n hynod ofalus. Pe gwelid bod plentyn mewn peryg' o niwed arwyddocaol a bod y trothwy wedi'i gyrraedd o ran cychwyn achos llys (sy'n golygu bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn), byddai'r Adran yn gweithredu'n ddi-oed, waeth beth yw'r sefyllfa o ran lleoliad. Roedd y Panel Craffu Lleoliadau yn edrych ar bob un o'r plant sydd mewn gofal ac yn sicrhau nad oes oedi na risg i'r plant hynny, ac fel pennaeth, cadarnhaodd nad oedd ganddi bryder bod yna blant yng Ngwynedd mewn peryg' oherwydd diffyg lleoliadau.

- Gan gyfeirio at baragraff 3.11 o'r adroddiad, holwyd beth oedd maint y sampl o ddogfennau adolygu a welwyd gan yr arolygwyr. Mewn ymateb, nodwyd mai bychan oedd y sampl, ond bod y dystiolaeth o'r grŵp ffocws plant, y cyfweliadau gyda'r staff ar draws yr adran a'r arolygon staff wedi dod i'r un casgliad, sef bod angen edrych yn fwy manwl ar lais y plentyn a'r trefniadau o ran gwneud yr adolygiad yn brofiad mwy cadarnhaol.
- Holwyd a fwriedid gwneud mwy o waith hanes bywyd gyda'r plant. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn waith pwysig iawn sydd angen digwydd ymhob achos o ran plant mewn gofal. Roedd yna enghreifftiau da o hyn, ond nid oedd yn digwydd yn gyson ar draws y gwasanaeth, yn bennaf oherwydd y pwysau gwaith ar weithwyr cymdeithasol. Cyflogwyd staff dros yr haf i ddod i mewn i gynorthwyo o fewn y timau ac roedd yna enghreifftiau o waith stori bywyd yn cychwyn. Roedd y timau hefyd yn gweithio gyda theuluoedd y plant er mwyn casglu lluniau, ac ati. Yn genedlaethol, datblygwyd pecyn cymorth ar gyfer gwneud gwaith stori bywyd sy'n canolbwyntio ar y materion allweddol ar gyfer hynny ac ar gyfraniad gofalwyr maeth i'r gwaith hwnnw. Cydnabyddid bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, ac er bod y gweithwyr yn awyddus iawn i wneud hynny, roedd yn anochel bod hyn yn llithro i lawr y rhestr blaenoriaethau wrth i waith arall ddod trwy'r drws.

Nodwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn a llongyfarchwyd yr adran ar gynnal safon mor uchel. Mynegwyd gwerthfawrogiad yr aelodau o ddeall bod:-

- y meysydd datblygu eisoes yn cael sylw;
- 9 teulu maeth newydd wedi'u recriwtio;
- denu i swyddi yn digwydd yn rhwydd;
- asesiadau manwl o ansawdd da yn cael eu gwneud mewn modd amserol;
- staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr;
- teuluoedd yn gadarnhaol ar y cyfan o ran y cymorth a ddarperir gan y Cyngor;
- pobl ifanc yn gwerthfawrogi gonestrwydd eu cynghorwyr personol.

Ar gais aelod, cytunwyd i ddosbarthu copïau o'r Rhaglen Uchelgais i holl aelodau'r pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, y Prif Arolygydd a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd am eu holl waith yn y maes hwn ac am eu hymatebion i'r cwestiynau/ sylwadau. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniad gan nodi y gwerthfawrogid y berthynas a'r deialog cyson rhwng yr Adran, y Pwyllgor Craffu a'r Arolygiaeth.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YMDRIN Â CHWYNION A CHEISIADAU GWYBODAETH YR ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet yn darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ystod y flwyddyn a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd ynghyd â manylion am y niferoedd o geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi bod yr adroddiad blynyddol statudol hwn yn adroddiad cadarnhaol. Eglurodd, oherwydd natur gwaith dydd i ddydd y gweithwyr, sy'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn, ei bod yn anorfod bod yna densiynau, ond mai lles a diogelwch y person ifanc yw'r ystyriaeth bennaf. Ychwanegodd nad oedd yr Arolygiaeth wedi codi unrhyw bryderon am drefn gwynion y Cyngor a chyfeiriodd at y sylwadau cadarnhaol a restrwyd ar gefn yr adroddiad gan unigolion ac asiantaethau sy'n bartneriaid i'r Cyngor.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd at rai o'r prif faterion yn yr adroddiad ac ymatebodd yr Aelod Cabinet, y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd i gwestiynau / sylwadau cyffredinol gan yr aelodau ynglŷn â'r drefn.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gallu i baratoi gwybodaeth byr rybudd ar gyfer achosion llys mewn achos o salwch / gwyliau'r swyddog perthnasol, eglurwyd nad oedd y gwasanaeth wedi wynebu'r sefyllfa honno hyd yma, ond bod gan yr Adran unigolion eraill sy'n gallu gwneud rhai rhannau o'r gwaith. Pwysleisiwyd ei fod yn waith manwl sy'n rhaid ei wneud yn ofalus iawn ac efallai y byddai'n rhaid dweud wrth y llys mewn rhai sefyllfaoedd nad yw'n ymarferol bosib' cyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen.
- Holwyd faint o deuluoedd sy'n gleientiaid i'r gwasanaeth fel y gellid amcangyfrif pa ganran sy'n cyflwyno cŵyn am y gwasanaeth. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad yn perthyn yn bennaf o ran yr hanes i'r cyfnod pan roedd yna tua 600 - 700 o achosion, yn cynnwys plant mewn gofal, plant mewn angen a phlant sydd angen eu cefnogi, ond bod yr agenda ataliol wedi ymestyn y nifer hynny'n sylweddol erbyn hyn. Gan hynny, roedd yn anodd mesur ar hyn o bryd a oedd lefelau cwynion ar gynnydd ai peidio. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd adnabod tueddiadau gan fod y materion sy'n codi yn arbenigol iawn ac yn unigryw i amgylchiadau'r teuluoedd unigol.
- Holwyd pryd y credid ei bod yn addas i ddod â phryder i sylw'r pwyllgor craffu. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad blynyddol yn gynnyrch pedwar adroddiad chwarterol, sy'n cael eu cynhyrchu fel rhan o drefniadau monitro'r gwasanaeth er mwyn gweld a oes unrhyw dueddiadau yn dod i'r amlwg. Cadarnhawyd nad oedd yna unrhyw fater o bryder wedi codi yn yr achos hwn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yr Arolygiaeth yn cadw golwg manwl ar y cwynion a'r rhesymau drostynt a'i fod yntau hefyd yn derbyn adroddiadau cyson. Ar hyn o bryd, roedd yr ymatebion roedd yn dderbyn, a'r Arolygiaeth yn dderbyn, yn cadarnhau bod popeth posib' yn cael ei wneud, ond pe gwelai bod yna nifer uchel o un math o gŵyn a bod y mater angen ei graffu, byddai'n gofyn i'r pwyllgor gael golwg arno.
- Holwyd beth sy'n digwydd mewn sefyllfa lle mae'r Cyngor yn derbyn cŵyn dro ar ôl tro ynglŷn â diffyg cyfleusterau, oherwydd oni ddarperir y cyfleusterau hynny, bydd rhagor o gwynion yn dod i law. Mewn ymateb, gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r pwyllgor ymddiried ynddo ef a'r Gwasanaeth a'r Arolygiaeth i ddelio â'r sefyllfa, ond cadarnhaodd y byddai'n dod â'r mater i sylw'r pwyllgor craffu pe gwelai bod yna golli rheolaeth neu fod yna bryder.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffynhonnell y cwynion, nodwyd ei bod yn bosib' mewn theori i deulu gyflwyno mwy nag un gŵyn ynghylch yr un mater oherwydd nad ydynt yn hapus gyda'r ymateb a gafwyd i'w cŵyn wreiddiol, ond na chredid bod y ffigurau'n dangos hynny.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd ei bod yn syndod bod nifer y cwynion mor isel mewn maes sydd â chymaint o wrthdaro a bod pob cŵyn yn ymddangos yn briodol.
- Holwyd pryd mae'r gloch yn canu o ran niferoedd a beth yw'r cam nesaf os nad yw'r adnodd yn cael ei roi. Mewn ymateb, eglurwyd y byddai hyn yn cael ei godi yn y Tîm Rheoli ac y byddai'r Aelod Cabinet yn dod i wybod am y mater. Edrychid ar y gwersi i'w dysgu o gwynion, gan gynnwys unrhyw negeseuon ynghylch prinder adnoddau a disgwylid y byddai'r rheolwyr priodol yn ymwybodol bod yna broblem.
- Gan gyfeirio at gŵyn GC/3971-17 yn y tabl yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sylwyd bod y golofn olaf yn nodi '*Yn anffodus, nid oes adnodd yn bodoli ar hyn o bryd*' a holwyd lle gallai'r achwynydd droi nesaf. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn fater penodol yn ymwneud â'r unig therapydd galwedigaethol o fewn Gwasanaeth Derwen, ac er

ceisio sicrhau trefniadau parhad gwasanaeth yn ystod absenoldeb y person hynny, y cyflwynwyd bid yn gorfforaethol yn ddiweddar iawn i gynyddu'r adnodd.

- Holwyd beth oedd yr amserlen o ran creu taflen gwynion. Mewn ymateb, eglurwyd y gohiriwyd creu'r daflen ar hyn o bryd gan y disgwylid i'r Cynulliad gyhoeddi rheoliadau diwygiedig. Nid oedd yr amserlen ar gyfer hynny yn hysbys eto.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r aelodau am y drafodaeth a'r cydweithio da rhwng pawb.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.20yp.

**CADEIRYDD**